***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 848

# Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Darpariaethau Canlyniadol) 2015

## RHAN 2

Addasu darpariaethau contractio allan

**Contractio allan**

**4.**—(1) Mae Rhan 2 o Reoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Contractio Allan) 1996(**1**) (ardystio cyflogaethau) wedi ei haddasu fel a ganlyn o ran y modd y'i cymhwysir i'r cynllun newydd.

(2) Nid yw'r gofynion yn rheoliad 2(1)(a) (gwneud dewisiadau ar gyfer dyroddi tystysgrifau contractio allan) a rheoliadau 3 (hysbysiadau gan gyflogwyr o fwriad i wneud dewisiad) i 5 (amser ar gyfer gwneud dewisiad) yn gymwys.

(3) Yn rheoliad 6 (gwybodaeth sydd i'w chynnwys mewn dewisiad)—

(a) mae paragraff (1) i'w ddarllen fel pe rhoddid y canlynol yn lle is-baragraffau (a) i (f)—

"(a) the name by which the new scheme is to be known;

(b) the name by which the old schemes are known; and

(c) any other information necessary to enable the Commissioners for Her Majesty's Revenue and Customs to identify the old schemes."; a

(b) nid yw paragraffau (2) a (3) yn gymwys.

(**1**) O.S. 1996/1172. Diwygiwyd Rhan 2 gan adran 1(2) o Ddeddf Cyfraniadau Nawdd Cymdeithasol (Trosglwyddo Swyddogaethau etc.) 1999 (p. 2) ac Atodlen 2 i'r Ddeddf honno; gan adran 1(2)(a) o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth (Datrys Anghydfodau) 1998 (p. 8), a chan O.S. 1997/786, 2002/681, 2005/3377, 2009/615, 2011/1245, 2011/1246, a 2013/2734. Yn rhinwedd adran 50(1) o Ddeddf y Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005 (p. 11), mae cyfeiriadau at Gomisiynwyr Cyllid y Wlad i'w hystyried yn gyfeiriadau at Gomisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.